YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 63
CHWEFROR 2014

Un o'r ffilmiau sy'n cael ei dangos ar hyn o bryd yn y sinemâu yw'r ffilm hynod bwerus *12 Years a Slave*. Stori wir ydyw am ŵr croenddu o'r enw Solomon Northup a anwyd yn Efrog Newydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i ganed yn ŵr rhydd ac wedi tyfu priododd â gwraig o'r enw Anne Hampton gan fagu tair o ferched. Roedd yn canu'r ffidl ac yn 1846 derbyniodd wahoddiad i ymuno â syrcas deithiol yn Washington DC. Yno cafodd ei dwyllo, ei herwgipio a'i werthu fel caethwas i un o daleithiau'r de yn America. Treuliodd y deuddeg mlynedd nesaf yn byw o dan amodau dirdynnol cyn iddo yn wyrthiol gael ei ryddhau a'i ddychwelyd at ei deulu yn ddyn rhydd unwaith yn rhagor. Cofnodwyd ei hanes mewn llyfr yn dwyn y teitl *12 Years a Slave* a addaswyd gan y cyfarwyddwr Steve McQueen o Loegr. Derbyniodd y ffilm adolygiadau gwych iawn ac mae wedi cael ei henwebu ar gyfer nifer o wobrau Oscars.

Ond tristwch o'r mwyaf inni heddiw yw cynabod nad yw'r creulondeb a'r atgasedd tuag at gyd-ddyn yn perthyn i'r gorffennol. Yn wir, prin fod 'na'r un diwrnod yn mynd heibio heb inni glywed am fethiant dyn i gydnabod gwerth ac urddas ei frawd a'i chwaer ar draws y byd, gan gynnwys ein gwlad ein hunain.

Mawr obeithir y bydd llwyddiant *12 years a Slave* yn ein cynorthwyo i fynd â ni gam yn nes at ddileu pob math o greulondeb tuag at ein gilydd a'n hysgogi i gydnabod ein bod ni oll yn blant i Dduw.

Dangosodd yr Arglwydd Iesu hyn yn glir gydol ei fywyd drwy ein caru. Ei ddymuniad yw inni garu ein gilydd gan roi cariad ei Dad Nefol ar waith mewn byd sydd yn dyheu am gael ei ryddhau o gadwynau creulondeb ac atgasedd.

Goleuni'r byd yw Crist,
Tywysog ein hachubiaeth,
y seren fore yw
a gwawr ein gwaredigaeth.
Ein gobaith ydyw ef,
perffeithydd mawr ein ffydd,
diddarfod gariad yw
sy'n troi pob nos yn ddydd.

G W Briggs
efel Dyfnallt Morgan

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
01970 820939
berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS CHWEFROR 2014

Cyhoeddwr y Mis: William Howells	Organydd y Mis : Mair Evans	
2 Chwefror 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
9 Chwefror 10.00yb 3.30yp	Oedfa Gomisiynu Zoe Glynne Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid, Menter Gobaith yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Horeb yn cynnal gwasanaeth yn Nhregerddan	
16 Chwefror 10.30yb 2.30yp	 Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri Oedfa Bregeth: Y Parchg Peter Thomas	 Gofal y Te: Glenys a William
23 Chwefror 10.30yb	Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe Oedfa Bregeth: Gweinidog	
2 Mawrth 10.30yb 2.30yp	 Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri Oedfa Gymun: Gweinidog Yn ystod yr oedfa byddwn yn croesawu Caitlin i deulu'r eglwys.	 Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan

I'CH DYDDIADUR

3 Chwefror: Cyfarfod â'r Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth UBC am 5.00yh
4 Chwefror: Cinio Bara Caws yng Nghapel y Morfa: 12.-1.30yp
12 Chwefror: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: 12.00yp
18 Chwefror: Cyfarfod Diaconiaid 2.30yp
19 Chwefror: Cymdeithas Bethel am 2.30yp yng nghwmni Carwen Vaughan. Sgwrs am Enwau Strydoedd Aberystwyth.
19 Chwefror :Glaw a hindda:blwyddyn trwy'r lens. Lluniau Iestyn Hughes. Cymdeithas y Penrhyn am 7.30yh
20 Chwefror: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp: Datguddiad 12: 7-18
20 Chwefror: Pwyllgor y Cyflwyniad ar y cyd yn Festri'r Garn 7.00yh
24-25 Chwefror: Clwb Hanner Tymor yn Festri Horeb: 10-12.30yp. Oedran 5 mlwydd oed i fyny. Croeso cynnes.
26 Chwefror: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
6 Mawrth: Noson Cawl a Chân yng nghwmni Côr Cantre'r Gwaelod. Tocynnau £5.
22 Mawrth: Gwibdaith Bethel a Horeb i Ardal Ann Griffiths.

LLOFFION

Dymuniadau Gorau i Mairwen syddd wedi cael triniaeth ar ei llygad.

Ymweliad gan Simeon: Bydd Simeon (Cyfarwyddwr Cenhadaeth UBC) yn ymweld â ni ar nos Lun,Chwefror 3ydd am 5yh i'n cynorthwyo i feddwl am ffyrdd newydd o gyfathrebu'r neges Gristnogol ac o roi cariad Duw ar waith yn ein cymdeithas. Croeso cynnes i bawb. Bydd hefyd yn ymweld â Bethel brynhawn dydd Mercher 12 Mawrth. Croeso i'r cyfarfod hwn hefyd.

To'r Capel: Diolch i bawb a fu ynghlwm â thrwsio'r to. Roedd hi'n hyfryd iawn cael bod nôl yn y capel i addoli.

Rhaglenni Cymanfa Ganu 2014: Ar gael gan Ceris – pris £1.35.

Gwirfoddolwyr: Byddai'r swyddogion yn ddiolchgar pe gallech wirfoddoli trwy dorri eich enwau ar y rhestri yn y cyntedd.

Seminar Estyn Llaw: Seminar i rai sydd am ddod i wybod mwy am ddibyniaethau alcohol a chyffuriau a'r dulliau gwhanol o gynnig adferiad yn Festri Bethel ar y 26ain Chwefror o 10-4yp. Dowch i gysylltiad â'r Gweinidog pe hoffech dderbyn mwy o fanylion.